Enw



DARLLENWCH
Actau 6: 1-5 ac 8-15
Actau 7: 54-60



ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 5: 44

# Gwers 2 Gweision yr Arglwydd – Parod i Farw!

Wrth i'r Newyddion Da, neu'r Efengyl, gael ei bregethu yn Jerwsalem, daeth mwy a mwy o bobl i gredu. Roedd y disgyblion mor brysur yn helpu pobl dlawd a phobl oedd eisiau bwyd, yn enwedig gweddwon, fel bod ganddyn nhw lai o amser i weddïo a phregethu. Felly, fe ddewison nhw saith o ddynion i helpu i ofalu am y gweddwon.

**C Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob un o'r lluniau i weld beth oedd enw un ohonynt nhw.**




____ ____ ____ ____ ____ ____

1

**C Pa ddau beth oedd yn arbennig am Steffan? Tynnwch linell o dan yr atebion cywir.**

Llawn llawenydd / Llawn o ffydd / Llawn o'r Ysbryd Glân /
Llawn syniadau da / Llawn hunanhyder

2

Yn ogystal â gofalu am bobl dlawd, fe wnaeth Steffan nifer o wyrthiau mawr. Rhoddodd yr Ysbryd Glân nerth iddo i wneud y pethau hyn fel y byddai'r bobl yn credu ei neges am yr Arglwydd Iesu ac yn ymddiried ynddo fel eu Gwaredwr.

**C Pwy oedd yn gwrthwynebu Steffan ac yn dadlau ag ef? (Darllenwch Actau 6:9)**

2

Fe wnaethon nhw berswadio pobl i ddweud celwydd am Steffan ac fe wnaethon nhw lwyddo i droi'r bobl gyffredin a'r arweinwyr crefyddol yn ei erbyn.
Fe wnaethon nhw ei gipio a dod ag ef o flaen y Cyngor. Yma, eto, cafodd Steffan help yr Ysbryd Glân i siarad dros Iesu.


**C Disgrifiwch yr olwg ar ei wyneb.**

1

Gallwch ddarllen yn Actau 7: 2-53 beth ddywedodd Steffan. Fe ddywedodd bod yr Iddewon wedi bod yn anufudd i Dduw erioed ac nad oedden nhw'n gwrando ar y rhai oedd yn pregethu Gair Duw. Aeth ymlaen i ddangos eu bod nhw'n dal i wrthod derbyn y neges bod Iesu Grist yn fyw.

**Ydyn ni'n gwrthod gwrando ar yr hyn y mae Duw yn ei ddweud wrthym trwy'r Beibl ambell waith?**

**Defnyddiwch y Darlleniad o'r Beibl, Actau 7: 54-60 i ateb cliwiau'r CROESAIR.**
**Ysgrifennwch yn y blychau lliw hefyd.**




**Cliwiau i lawr**

1. Roedd Steffan yn __ _ _ _ o'r Ysbryd Glân.
4. Un o deitlau Iesu (Adnodau 59 a 60)
5. Gofynnodd Steffan i Dduw beidio â dal _ _ __ _ _ y bobl yn eu herbyn.
6. Gwelodd Steffan _ _ _ _ _ _ _ _ _ Duw.



**Cliwiau ar draws**

2. Dywedodd Steffan ei fod yn gweld _ _ _ _ _ _ _ ar ochr dde Duw (3 gair).
3. Cafodd Steffan ei fwrw allan o'r __ _ _ _ _.
7. Roedd y bobl yn ysgyrnygu eu _ _ _ _ _ _ _ ar Steffan.
8. Pwy oedd yn dal dillad y bobl?

**C**

**Rhowch y llythrennau yn y blychau lliw yn y croesair yn y drefn gywir i wneud y gair sy'n dweud beth wnaeth y bobl i Steffan.**

___ __ __ __ ___ __ __

9

**C** **Darllenwch yr Adnod Allweddol a'i hysgrifennu yma:-**

1

**C** **Nawr, darllenwch Luc 23: 34 a'i chymharu ag Actau 7: 60. Beth wnaeth Steffan sy'n ein hatgoffa o'r hyn a wnaeth ei Feistr a'i Waredwr, Iesu Grist, pan fu ef farw?**

2

2

Roedd Steffan yn barod i farw fel Cristion, yn hytrach na chadw'n dawel am y Newyddion Da fod yr Arglwydd wedi Atgyfodi. Heddiw, mewn rhai gwledydd mae pobl yn gas i Gristnogion oherwydd eu ffydd. Mae rhai Cristnogion yn barod i farw yn hytrach na bradychu yr Iesu y maen nhw'n ei garu!

## Faint ydych chi'n caru Iesu?

**cyfanswm**